

Rhan 1

Yn ôl Welsh Government (2015) mae Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddatblygu a fydd y fframwaith yn darparu un asesiad am blant o enedigaeth hyd at saith mlwydd oed. A hefyd cyfres o offer asesu sydd yn gallu cael eu defnyddio i dracio ac asesu cynnydd plant. Mae'r nodau canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn ôl Welsh Government (2021) mae'r nodau yn helpu ysgolion i ddatblygu cwricwlwm eu hunain. Mae'n rhoi'r gallu'r pob dysgwr i ddatblygu tuag at y pedwar pwrpas o'r cwricwlwm, hwn yw'r pwynt dechrau ar gyfer pob person ifanc a phlentyn Yng Nghymru. Yn ôl Munson (2022) mae'r cwricwlwm newydd wedi cael ei sefydlu o dan y gyfraith Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021. Yn y blynyddoedd cynnar mae meithrinfeydd yn cynllunio eu cwricwlwm eu hunain, ond mae angen gwneud yn siŵr bod yn cyrraedd y gofynion a nodir gan Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.

Yn ôl Ward (2020) mae cwricwlwm sydd yn seiliedig ar chwarae yn ymgysylltu diddordeb pob synhwyrau mewn dysgu. Mae dysgu trwy chwarae yn gallu helpu ac yn bwysig i blant ifanc, oherwydd mae'n paratoi ar gyfer ysgol, helpu gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd ac annog eu dychymyg (Family Lives, 2023). Mae Robertson, Morrissey a Rouse (2018) yn dweud bod plant yn cael eu cymell yn naturiol i chwarae. Mae cwricwlwm sydd yn seiliedig ar chwarae yn adeiladu ar y cymhelliant hwn, wrth ddefnyddio chwarae fel cyd-destun ar gyfer dysgu. Mae plant sydd yn dysgu trwy chwarae yn arbrofi, darganfod, archwilio, datrys problemau mewn chwareus a dychmygus. Fodd bynnag mae plant sydd yn dilyn cwricwlwm dysgu trwy chwarae, efallai na fydd y plant yn agored yn uniongyrchol i lythrennau, rhifau a chysyniadau gwyddonol. O ganlyniad i hwn efallai bydd yn perfformio'n waeth yn brofion na phlant sydd yn dilyn cwricwlwm academiaidd traddodiadol.

Mae Unicef (2018) yn cyfleu bod chwarae yw'r peth mwyaf pwysig i sicrhau bod plant yn ennill gwybodaeth a sgiliau hanfodol. Yn ôl Ahmad *et al* (2016) mae chwarae yn cyfrannu at ddatblygiad gwybyddol mewn nifer o ffyrdd. Mae chwarae yn helpu plant i ddatblygu eu cof a dychymyg, sydd yn hanfodol ar gyfer meddwl am y gorffennol, presennol a dyfodol. Trwy chwarae mae plant yn dysgu gwybodaeth ac ennill sgiliau sy'n hanfodol i'w datblygiad gwybyddol. Fodd bynnag mae Siraj a Kingston (2014) yn dweud mai camsyniadau o fel i werthfawrogi sut mae plant ifanc

yn dysgu, mae hyn cynnwys dysgu trwy chwarae ac yn dysgu yn brofiadol sy'n seiliedig ar brosiect. Mae hyn wedi arwain at lawer o leoliadau i ddyfrio arfer addysg gynnar effeithiol. Mae Siraj a Kingston (2014) hefyd yn cyfleu wrth gyflwyno cyfnod sylfaen, ysgolion nad oedd yn deall sut i strwythuro'r amgylchedd ac fel i gefnogi plant i ddysgu trwy chwarae, yn arwain at ystafelloedd dosbarth anhrefnus lle mae plant yn chwarae yn rhydd gyda dim strwythur, nad doedd yr amgylchedd hwn yn gweithio i bawb. Felly dylai ymarferwyr deall fel i strwythuro profiadau a chyfleoedd plant a hefyd yr amgylchedd i wella a chefnogi dysgu.

Mae Te Whariki yn dilyn cwricwlwm sydd yn seiliedig ar ddysgu trwy chwarae. Mae dysgu trwy chwarae yn wahanol i'r cysyniad ehangach o chwarae. Nid yw dysgu yn angenrheidiol er mwyn i weithgaredd gael ei weld fel chwarae, ond mae dysgu yn sylfaenol i ddysgu trwy chwarae (TKI, 2019). Mae WJE (2015) hefyd yn dweud bod y cyfnod sylfaen yn hyrwyddo ymagwedd sydd yn seiliedig ar ddysgu trwy chwarae ar gyfer plant rhwng yr oed tri i saith, sydd gyda'r pwyslais ar ddatblygiad personol a lles y plentyn. Fodd bynnag mae Munson (2022) yn dweud o dan y cwricwlwm newydd Yng Nghymru nid oes gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar amserlen benodol o weithgareddau y mae'n iddynt eu darparu. Ond maent yn canolbwyntio ar ddysgu ystyrlon, gweithgareddau sy'n darparu cyfleoedd dysgu sylweddol.

Yn ôl Donaldson (2015) mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i UNCRC yn 2004. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis UNCRC i lunio'r holl waith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc a phlant, mae'n cael ei fynegi drwy'r saith nod craidd. Un o'r saith craidd yw yn cael mynediad i weithgareddau chwaraeon, hamdden, diwylliannol a chwarae.

Yn ôl Welsh Assembly Government (dim dyddiad) mae'n bwysig bod ymarferwyr yn adnabod gwerth chwarae yn dysgu plant ifanc a hefyd yn cael ei esbonio a chydabod. Mae'n hanfodol bod nodau clir ar gyfer dysgu plant ifanc o fewn y maes chwarae. Mae hwn oherwydd, mae'n haws iawn i'r term chwarae cael ei gamddehongli fel rhywbeth dibwrpas a dibwys. I sicrhau bod chwarae yn cael effaith yn y cyfnod sylfaen mae'n hanfodol i gynllunio yn ofalus. Mae Welsh Assembly Government (dim dyddiad) hefyd yn cyfleu bod chwarae yn gynhwysyn hanfodol yn y cwricwlwm a ddylai fod yn ysgogol a hwyl. Mae chwarae sydd wedi cael ei gynllunio yn ffordd dda yn helpu plant i wneud synnwyr o'r byd o'u gwmpas a hefyd feddwl.

I ymarferwyr sydd yn gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar mae'n bwysig i ddiweddarau eu datblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd. Mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei anwybyddu yn y lleoliad. Fodd bynnag gal ddod o hyd i hyfforddiant fod yn broblem. Mae'n hanfodol bod y rheolwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn adnewyddu eu sgiliau yn barhaus, mae hwn yn sicrhau bod arfer rhagorol yn cael ei ddangos (Kelly, 2016). Mae hyfforddiant hefyd yn helpu ymarferwyr i wella sgiliau, adnewyddu gwybodaeth, nodi cyfleoedd i ddysgu rhywbeth newydd, a hefyd cael gwybodaeth ddiweddaraf i helpu nhw cadw lan gyda'r datblygiadau diweddaraf (Busy Bees, 2022). Fodd bynnag yn ôl Evans (2015) mae angen ymarferwyr cael yr adnoddau i sicrhau bod nhw yn gallu gwneud eu swydd, bydd hyn yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus dal yn gallu digwydd. Yn ôl Siraj a Kingston (2014) un o'r argymhellion yw targedu hyfforddiant a chefnogaeth. Wrth sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth mae'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth drwy wella ansawdd yr addysgu, yn lle na chanolbwyntio ar newidiadau strwythurol yn unig. Mae cynnydd yn gyflawniadau pob plentyn yn debygol wrth wneud hwn.

Yn ôl Donaldson (2015) mae'r cwricwlwm Yng Nghymru wedi datblygu. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol angen sefydlu hawl i bobl ifanc a phob plentyn mewn ysgolion i addysg sydd yn cynnwys adlyniad i wybodaeth a sgiliau. Bydd y cwricwlwm yn sefydlu nodau cyffredin addysgol dros Gymru ac yn sicrhau effeithlonrwydd wrth ddatblygu adnoddau, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer athrawon. Fodd bynnag yn ôl Siraj a Kingston (2014) mae rhai lleoliadau heb gael gwahoddiad i gael hyfforddiant ar gyfer cyfnod sylfaen. Am leoliadau sydd heb ei ariannu nid yw'r hyfforddiant yn gyson nac yn sicr ar draws y wlad, felly mae'n bwysig wrth gynllunio ar gyfer hawl plant a hefyd gweithredu am y dyfodol yn y Cyfnod Sylfaen, mae'n bwysig i ystyried yr anghysondebau hyn. Wrth wneud hwn mae'n sicrhau profiadau teg a chyfleoedd o fod plentyn rhwng yr oedran tri i saith.

Yn ôl WISERD (2016) mae staffio yn gallu fod yn broblem am y cyfnod sylfaen. Y nodwedd allweddol o'r Cyfnod Sylfaen yw'r adnodd ychwanegol i wella cymarebau oedolyn i blant y blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen. Mae Siraj a Kingston (2014) yn cyfleu bod y cyfeiriad newydd y Cyfnod Sylfaen newydd yn caniatáu cymhareb uwch oedolyn i blentyn. Y gymhareb yw 1:8 yn lleoliadau blynyddoedd cynnar a dosbarthiadau derbyn a 1:15 i ddosbarthiadau blynyddoedd un a dau. Hefyd mae'n gymhareb newydd yn caniatáu ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi fel ymwelwyr a

theithiau. Fodd bynnag mae rhai lleoliadau wedi awgrymu lleihau'r gymhareb yn ddosbarthiadau derbyn i 1:10. Ni fydd hyn yn cael effaith ar ansawdd, oherwydd mae' bwysig adnabod bod ansawdd y staff yn bwysicaf na maint y staff.

Mae plant sydd yn amgylchedd chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn gadarnhaol o safbwynt iechyd a hefyd o ran cysylltu gyda'r amgylchedd. Mae plant sydd yn yr awyr agored yn gallu mwynhau'r golau a'r cysgod o wahanol amseroedd y dydd a hefyd tymhorau (Early Years Matters, 2016). Mae chwarae tu allan yn gadael plant i ddatblygu annibyniaeth, hunanhyder a hunan-barch. Mae plant hefyd yn dod yn gyfarwydd o beth yw eu terfynau, ffiniau a her yn eu chwarae (Indirect, dim dyddiad).

Mae Cwricwlwm sydd yn seiliedig gyda dysgu yn yr awyr agored yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar ddysgu, iechyd meddwl a chymhelliant. Mae'n hefyd yn sicrhau cymhelliant staff, nid y plant yn unig. Mae angen i ymarferwyr sicrhau hwyluso a chynllunio cyfleoedd dysgu (Love Outdoor Learning, 2020). Mae dysgu yn yr awyr agored yn ddull pedagogaidd sydd yn cael ei ddefnyddio gwella ymgysylltiad ysgolion, gwella lles ac iechyd plant a hefyd gyfoethogi dysgu. Fodd bynnag nid yw ei ddulliau nad yw yn draddodiadol o gyflawni nodau'r cwricwlwm eto wedi cael eu cydnabod ymhellach na'r blynyddoedd cynnar (Marchant *et al.* 2019). Yn ôl Siraj a Kingston (2014) wrth gynyddu faint o staff, mae wedi helpu datblygu ardaloedd tu allan, mae hwn wedi arwain at well rhyngweithiadau rhwng plant ac oedolion.

Mae dull Sgandinafia yn ddull sydd yn adnabyddus am ei hagwedd addysgol chwareus, sy'n dipyn yn wahanol i'r dull yn Deyrnas Unedig. Mae'r dull hefyd yn ffocysu ar y hirdymor ac i wneud dysgu mewn i rywbeth sy'n gyffrous ac yn hwyl (Print Play Learn, 2022). Yn ôl Taguma, Litjens a Makowiecki (2013) mae cwricwlwm Sweden yn annog defnyddio'r awyr agored fel ardal ar gyfer dysgu, chwarae, archwilio ac sydd yn cael ei arwain gan y plentyn.

Pwrpas y cwricwlwm i bob ysgol a lleoliad yw cefnogi pob plentyn a pob person ifanc, i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol, sicrhau bod pob plentyn yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau. Felly gallwn weld pa mor bwysig yw'r cwricwlwm i sicrhau bod pob plentyn yn llwyddo ym mywyd (Welsh Government, 2023).

Rhan 2

Mae pob plentyn yn unigryw. Mae plant yn dysgu yn gyson ac yn gallu bod yn alluog, hyderus, hunan-sicr a wydn. Mae plant ifanc a babanod yn aeddfedu ym mhob maes datblygiad yn eu ffyrdd unigol a hefyd ar eu cyflymder eu hunain (Early Years Matters, dim dyddiad). Yn ôl Wellies Day Nursery (2021) mae'n cyfleu bod plentyn unigryw yn datblygu a dysgu ar wahanol gyflymder. Maen nhw hefyd yn dweud bod plant yn dysgu bod yn annibynnol ac yn gryf trwy gael perthnasoedd cadarnhaol. Mae plan hefyd yn datblygu a dysgu yn well mewn amgylcheddau galluogi.

Mae ymarferwyr yn asesu plant oherwydd, i weld beth mae plant yn gallu gwneud a beth dydyn nhw ddim yn gallu gwneud. Mae asesu yn hollol bwysig i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu tracio cynnydd, adrodd a chynnwys rhieni, plant a phobl ifanc mewn dysgu a chynllunio camau nesaf (Parentzone Scotland, 2023). Yn ôl West Sussex County Council (2021) mae arsylwi yn broses sy'n disgrifio gwylio plant sydd yn ei gofal, cymryd sylw o beth sydd yn digwydd o'u gwmpas a gwrando ar y plant. Mae asesu yn cael ei ddefnyddio i ddadansoddi'r arsylwadau a phenderfynu'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym. Mae hefyd yn ddefnyddiol i gael gwybodaeth wrth rieni i ddysgu am anghenion y plant. Wrth arsylwi gall yr ymarferwyr nodi beth yw diddordebau, gofynion a datblygiad dysgu plant. Y peth olaf yw cynllunio. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cynllunio i'r cam nesaf datblygiad dysgu plant. Mae cynllunio yn digwydd trwy ddefnyddio beth sydd wedi cael ei ddarganfod o'r asesiadau ac arsylwadau a hefyd y wybodaeth o'r rhieni.

Yn ôl Offorma (2016) mae diwylliant yn ffactor pwysig gan gynllunio'r cwricwlwm ac yn cael ei chynnwys yn pob cwricwlwm. Mae hyn oherwydd mae'n bwysig bod plant yn gwybod a dysgu am dreftadaeth ddiwylliannol cymdeithas. Mae unrhyw gymdeithas nad yw ei haddysg wedi'i seilio ar ei diwylliant yn berygl o wahanu cynnyrch y system oddi wrth eu diwylliant. Mae'n bwysig bod y bobl sydd yn cynllunio'r cwricwlwm yn gyfarwydd â diwylliant y gymdeithas a chynllunio'r cwricwlwm cywir ar gyfer y diwylliant cywir.

Yn ôl Garvis, Harj-Luukkainen a Flynn (2018) y gallu i siarad ieithoedd gwahanol yn bwysig iawn yn y byd eang heddiw, oherwydd er mwyn caniatáu deall a chyfathrebu. Mae gwahanol wledydd yn amrywio'r ffordd maent yn cefnogi dysgu iaith gynnar gyda rhaglenni trochi. Mae amlieithrwydd a dwyieithrwydd yn bwysig yn brifddinas yn

y byd eang. Mae'r addysg ffurfiol yn rhoi un siawns i blant ddysgu ieithoedd. Ond fel mae ieithoedd yn cael ei gyflwyno yn wahanol ar draws y byd. Mae hyn yn ddibynol ar yr ideoleg y wlad. Mae rhai plant ddim ond yn cael y cyfle i ddysgu iaith arall yn blentyndod cynnar neu ysgol, lle mae plant arall yn agored i amgylchedd amlddiwylliannol neu dwy ddiwylliannol wrth dyfu ian. Mae Garvis, Harj-Luukkainen a Flynn (2018) hefyd yn cyfleu bod gwahanol wledydd yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol.

Yn ôl Smidt (2008) mae rhai ieithoedd yn cael ei ystyried yn freintiedig ond mae ieithoedd arall yn cael ei weld fel problem. Mae hyn dangos bod problem gydag agwedd pobl tuag at rhai ieithoedd a diwylliant sydd yn clymu at ragfarn a hiliaeth. Mae ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn gallu cefnogi plant sydd yn amlieithrwydd a dwyieithrwydd trwy gynnig deunyddiau chwarae, adnoddau a llyfrau sydd yn adeiladol drwy fyfyrion ar sut mae plant yn dysgu am ddiwylliant a hunaniaeth ddiwylliannol (Lindon, 2012). Yn ôl Gov.uk (dim dyddiad) mae gwrandio ar ddetholiad eang o straeon, rhigymau a cherddi yn helpu plant gwella dealltwriaeth o'n diwylliant.

Yn ôl Early Years Matters (2021) mae arsylwi yn rhan fawr o'r cyfnod sylfaen blynyddoedd cynnar. Mae arsylwi yn arfer sydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn gwrandio ac edrych ar blant. Mae hyn yn helpu ymarferwyr ddarganfod sut mae'r plant yn datblygu, beth yw diddordebau, beth maent yn hoffi ac fel mae plant yn dysgu trwy brofiadau a chwarae sydd yn cael ei chynnig. Mae'n bwysig bod ymarferwyr a rhieni yn siarad am y tri pheth hyn i sicrhau bod nhw yn gallu gwneud penderfyniad os mae'r plentyn yn datblygu at y cam disgwylidig. Mae Welsh Government (2020) yn cyfleu bod y pwrpas o'r cwricwlwm newydd yw hyrwyddo lles cenedlaethol ac unigol, annog ymgysylltu beirniadol a dinesig a hefyd y gafael i gam wybodaeth ac anwybodaeth.

Mae'r dull Reggio Emilia yn ddull sydd yn canolbwyntio ar feddyliau, syniadau, brofiadau ac atgofion plant wrth iddyn nhw wneud eu gwaith. Mae ymarferwyr yn dogfennu gwaith ac arsylwi plant, wrth gymryd sylw a gofal mawr i gynnwys a hefyd agweddau estheteg yr arddangosfa (Weebly, 2015). Yn ôl Edwards, Gandini a Forman (dim dyddiad) mae'r dull Reggio Emilia yn helpu ymarferwyr gweld sut mae meddyliau plant yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o ffyrdd a dealltwriaeth ddyfnach o ymchwil sydd o'r byd o'r cwmpas. Fodd bynnag mae Spielgaben (2016) yn cyfleu wrth ddefnyddio'r dull Reggio Emilia mae'n anodd dangos y rhieni fod plant

yn dysgu. Mae hyn oherwydd does dim darnau o waith i ddangos i'r rheini. Mae'r dull yn dysgu o dan gyfarwyddyd y plentyn. Mae'r dull hyn yn gallu fod yn anfantais i'r rheini sydd angen weld os mae plentyn nhw yn gwybod y wyddor neu rifau. Hefyd does dim ffordd i brofi plant yn erbyn plant arall o'r un oedran, oherwydd does dim cwricwlwm wedi cael ei gosod. Mae Early Education Support (2006) yn cytuno bod Reggio Emilia yn ddull lle mae celfyddydau mynegiannol yn chwarae rhan fawr yn y dull yma, a lle mae perthynas ddysgu ddwyochrog unigryw yn bodoli rhwng y plentyn a'r ymarferwyr. Mae llawer o sylw i ddogfennu dysgu ac arsylwi manwl ac mae'r dull hyn yn gwneud yn siŵr bod broses ddysgu yw'r peth mwyaf pwysig dros y cynnyrch terfynol.

Yn wahanol i'r dull Reggio Emilia mae Te Whāriki yn gwricwlwm cynhwysol. Mae cwricwlwm cynhwysol yn gwricwlwm i bob plentyn. Mae cynhwysiant cwmpasu ethnigrwydd a rhyw, anghenion dysgu a amrywi arth gallu, crefydd, strwythur a gwerthoedd teuluol a hefyd statws economaidd cymdeithasol (Ministry of Education, 2017). Mae Te Whariki yn rhoi ei holl ffocws ar y plentyn a theulu ac edrych ac fel mae plentyn yn dysgu trwy lygad y plentyn. Mae Te Whariki yn gallu cael ei chymharu gyda Nodweddion Dysgu Effeithiol sydd yn Lloegr. Mae'r themâu ac egwyddorion Te Whariki yn y canllawiau Cwricwlwm EYFS (Veazey, 2023). Mae ymarferwyr sydd yn dilyn storïau dysgu Te Whariki yn tynnu lluniau a dogfennu o brofiadau dysgu'r plant. Wrth wneud hyn mae'n creu darlun o ddatblygiad cyffredinol y plentyn a pherthnasoedd a gweithgareddau mae'r plant wedi cymryd rhan ynddo. Ar ôl gwneud hwn mae'r ymarferwyr yn gallu rhannu'r stori dysgu gyda theuluoedd y plant (Veazey, 2023). Mae Reggio Emilia a Te Whariki yn dilyn dull ar egwyddorion cymdeithasol diwylliannol sydd yn pwysleisio addysgu a dysgu ac yn canolbwyntio ar y dysgwyr sef y plentyn. Fodd bynnag yn wahanol i Te Whariki, nid yw Reggio Emilia yn dilyn y gofynion fframwaith Cwricwlwm Cenedlaethol a hefyd y fframwaith Cenedlaethol sydd yn canolbwyntio ar y dysgwr (Miller a Soler, 2010).

Yn ôl Learn the Signs Act Early (dim dyddiad) mae monitro datblygiadol yn meddwl nodi ffyrdd penodol ac arsylwi fel mae'r plentyn yn dysgu, siarad, chwarae, symud bob dydd a hefyd gweithredu. Wrth ddefnyddio'r dull monitro datblygiadol mae'n fel arfer yn meddwl tracio datblygiad plentyn gan ddefnyddio rhestr wirio o gerrig milltir ddatblygiadol.

Mae'r dull Reggio Emilia yn caniatáu'r ymarferwyr i dracio a dangos cynnydd trwy luniau, recordiadau sain a llafar, portffolios gwaith a fideos. Mae ymarferwyr Reggio Emilia hefyd yn cymryd yr amser i adlewyrchu ar beth maent wedi dysgu am ei hunain a hefyd fel maen nhw yn dysgu (Wise, 2021). Mae rhan fwyaf o ymarferwyr Montessori ddim yn rhoi graddau, ond yn arsylwi yn agos iawn ar gynnydd pob plentyn a pharodrwydd i symud ymlaen i'r gam nesaf. Mae ymarferwyr Montessori yn holi plant ar lafar i ddarganfod beth maent wedi dysgu a hefyd efallai gofyn i'r plentyn dangos i blant arall beth maent wedi dysgu. Yn debyg i'r dull Reggio Emilia mae Montessori hefyd yn creu portffolios o waith y plant. Mae'r rhieni yn gallu gweld cynnydd plant nhw trwy edrych ar y portffolios (Wake Forest Montessori, 2015). Mae'r dull Montessori at addysg mewn sawl ffordd yn debyg i egwyddorion a'r rhai sydd yn y Fframwaith EYFS, sef bod pob plentyn yn unigryw, bod plant yn dysgu trwy berthnasoedd cadarnhaol, mewn gwahanol ffyrdd, gyflymder gwahanol ac mewn amgylcheddau galluogi (Optimus Education, dim dyddiad).

Mae addysg Ffindir yn y blynyddoedd cynnar, nid yw plant yn cael eu profi ar eu dysgu neu gynnydd. Ond mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau ac offer arsylwi i fonitro datblygiad plant. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda rhieni'r plant i greu cynllun sydd y cyd fynd gydag anghenion unigryw'r plentyn. Mae'r ymarferwyr a rhieni yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd, gan wneud hwn mae'n helpu monitro cryfderau, twf y plentyn mewn gwahanol feysydd dysgu ac anghenion datblygu (Hei Schools, 2020).

Nid oes dau blentyn yr un peth. Mae pob plentyn yn unigryw a dyma beth sydd yn gwneud nhw pwy ydyn nhw. Mae pob plentyn gyda'i diddordebau a phethau nad yn cael diddordeb mewn, eu sgiliau a'u brwydrau, a hefyd eu gweithgareddau a hobiau (Six Into Seven, 2023).

Rhan 3 – Blog: Pwysigrwydd chwarae risg yn yr awyr agored a pham nad yw ymarferwyr yn mwynhau chwarae risg.....

Mae chwarae risg yn weithgaredd cyffrous a gwefreiddiol sydd yn cynnwys risg o anaf corfforol, a chwarae sydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer her, dysgu am risg o

anafiadau, profi terfynau ac archwilio ffiniau (Hornsea nursery school, dim dyddiad)
Yn ôl Harper a Obee (2021) mae chwarae risg hefyd yn cael ei diffinio fel ymddygiad lle mae'r canlyniad yn ansicr a hefyd yn heriol a cyffrous sydd gyda'r potensial am niwed corfforol.

Pam mae chwarae risg yn bwysig i ddatblygiad plentyn?

Mae chwarae risg yn helpu datblygiad plant wrth gynyddu hunan hyder, sgiliau gweithredu gweithredol, gwytnwch, a galluedd asesu risg. Mae Plant sydd yn chwarae risg yn cymryd rhan yn eu harbrawf gwyddoniaeth eu hunain, mae plant yn gwrthio eu hunain allan o'u parth cysurus heb wybod beth fydd y canlyniad. Mae chwarae risg hefyd yn helpu plant i ddysgu eu terfynau eu hunain a dod o hyd at beth sydd yn gwneud nhw teimlo'n gyfforddus. Wrth i blant chwarae risg yn fwy aml mae'n helpu dod yn ymwybodol a helpu lleihau'r risg o anaf, oherwydd wrth i blant dysgu nodi'r pwynt lle mae angen stopio ac ailasesu'r sefyllfa. (Children's Center, 2020).

6 categori o chwarae risg

Yn ôl Explorations Early Learning For Playvolution HQ (2020) mae Ellen Sandseter yn cyfleu bod chwe chategori am chwarae risg. Categori un yw uchelfannau mawr lle mae plant yn ceisio cyfleoedd i ddringo i uchelderau mawr. Wrth i blant rhyngweithio gydag uchelfannau mae'n helpu plant i hybu hyder ac wynebu ofnau. Mae dringo i uchelfannau yn gallu arwain at risg o anaf o syrthio. Cyflymder cyflym lle mae plant yn symud yn gyflym iawn, wrth wneud hyn mae'n galluogi i blant i ddeall a defnyddio eu cyrff. Mae symud at gyflymder cyflym yn gallu arwain at anaf o wrthdrawiad. Mae plant yn ceisio cyfleoedd i ddefnyddio offer sydd gallu fod yn beryglus fel cyllyll, rhaff ac offer pŵer. Wrth ddefnyddio offer peryglus mae'n helpu plant adeiladu sgiliau a hyder. Mae offer peryglus yn gallu arwain at glwyfau ac anaf. Mae plant yn ceisio cyfleoedd gydag elfennau peryglus fel tân a dŵr sydd yn symud. Mae ymgysylltu gydag elfennau peryglus yn rhoi'r siawns i blant deall y byd ac wynebu ofnau. Mae ymgysylltu gydag elfennau peryglus hefyd yn gallu arwain at glwyfau ac anaf. Mae chwarae garw a tymbl yn rhoi'r cyfle i blant defnyddio sgiliau cymdeithasol a corfforol. Wrth i blant cymryd rhan yn chwarae garw a tymbl mae'n gallu arwain at gleisiau a chrafiadau. Mae diflannu neu fynd ar goll yn rhoi'r teimlad o wefr

frawychus am amser bach. Wrth adael plant chwarae diflannu eu mynd ar goll mae'n gallu arwain at blant mynd ar goll mewn gwirionedd.

Yn ôl Baby Sparks (2019) mae'r chwe chategori yn bwysig oherwydd, mae'n cynyddu creadigedd, hunanhyder, gwydnwch a hefyd dealltwriaeth o fesurau diogelwch a therfynau. Mae plant hefyd yn dysgu fel i ymdopi mewn sefyllfaoedd llawn straen. Mae National Siolta Aistear Initiative (dim dyddiad) hefyd yn dweud bod cymryd rhan yn y catgorau hyn sydd yn llawn risg yn dod â llawer o fanteision i blant. Manteision fel rheolaeth, gwneud penderfyniadau, asesu risg, datrys problemau ac ymdopi gyda heriau.

Pam nad yw ymarferwyr yn mwynhau chwarae risg

Yn ôl Staples (2021) mae Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar yn nodi bod gan ymarferwyr y ddyletswydd i sicrhau bod plant yn ddiogel ac i amddiffyn plant sydd yn eu gofal. Fodd bynnag mae hefyd yn ofynnol i ymarferwyr ddarparu amgylcheddau galluogi, sydd yn cefnogi'r holl ddiddordebau ac anghenion unigol y plant.

Yn ôl Sandseter (2013) mae oedolion yn aml yn gwneud y penderfyniadau cymryd risg sy'n ymwneud â phlant, oherwydd bod y plant o dan wyladwriaeth oedolion yn gyffredinol. Felly, wrth i oedolion asesu'r risg a'r penderfyniad i ganiatáu i'r plant gymryd rhan yn y gweithgaredd peryglus mae'n hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau'r plant o ran cymryd risg. Dylai ymarferwyr blynyddoedd cynnar gadael plant i wynebu heriau a risgiau mewn lleoliad cymharol ddiogel. Dyma'r ffordd orau i sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth chwarae risg.

Mae Button a Wilde (2018) yn cyfleu bod ysgol coedwig yn ffordd dda i ymarferwyr blynyddoedd cynnar i fagu hyder i ganiatáu plant i chwarae risg. Ysgol coedwig yw strategaeth werthfawr i ddatblygu chwarae risg yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr sydd yn meddwl yn agored am chwarae risg ac sydd yn mwynhau bod yn yr awyr agored yn cael effaith positif ar blant, lle mae ymarferwyr sydd yn ofni neu gyda phryder am chwarae risg yn cael effaith negyddol. Mae plant yn darllen mynegiant yr wyneb a gweithredoedd ac mae'r plant yn fwy tebygol o sylweddoli bod y gweithgaredd yn llawn risg.

Mae Staples (2021) yn dweud bod ymarferwyr yn chwarae rôl bwysig iawn wrth gymryd risg, oherwydd mae angen i blant teimlo yn ddiogel. Wrth iddyn nhw deimlo'n

ddiogel mae'r plant yn ddigon dewr i geisio ar syniad yn annibynnol. Mae Staples (2021) hefyd yn cyfleu bod ymarferwyr yn amharod i chwarae llawn risg, oherwydd nhw sydd yn gyfrifol am y plant ac os fydd y plentyn yn cael ei anafu. Mae ymarferwyr yn ofni hwn.

Yn ôl Brussoni *et al.* (2015) mae ymchwil wedi nodi bod lefelau uwch o oruchwyliaeth uniongyrchol yn gysylltiedig â chyfraddau anafiadau is. Ydy hwn pam nad ydy ymarferwyr yn hoffi chwarae sydd yn llawn risg?

Rhestr Cyfeirnod

Ahmad, S. *et al.* (2016) *Play and Cognitive Development: Formal Operational Perspective of Piaget's Theory*. Ar gael o:
<https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1118552.pdf>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Baby Sparks. (2019) *Toddler Risky Play: What Is It and How Does It Support Development?* Ar gael o: <https://babysparks.com/2019/09/23/toddler-risky-play-what-is-it-and-how-does-it-support-development/#:~:text=Benefits%20of%20risky%20play%20include,to%20cope%20in%20stressful%20situations>. (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Brussoni, M. *et al.* (2015) *What is the Relationship between Risky Outdoor Play and Health in Children? A Systematic Review*. Ar gael o: <https://www.mdpi.com/1660-4601/12/6/6423>. (Darllenwyd: 13 o Ionawr 2023).

Busy Bees. (2022) *Early Years Training Bundle: Benefits of Continuing Professional Development (CPD)*. Ar gael o: <https://busybeestraining.co.uk/blog/benefits-of-continuing-professional-development/#:~:text=It%20encourages%20those%20working%20in,to%20date%20with%20latest%20developments>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Button, J. a Wilde, A. (2018) *Exploring practitioners' perceptions of risk when delivering Forest School for 3- to 5-year-old children*. Ar gael o: <https://www-tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/epdf/10.1080/21594937.2019.1580334?needAccess=true&role=button>. (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Children's Center. (2020) *Supporting Young children's Risky Play*. Ar gael o: <https://www.bu.edu/childrens-center/files/2020/07/Risky-Play.pdf>. (Darllenwyd: 18 o Ionawr 2023).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 14 o Ionawr 2023).

Early Education Support. (2006) *The Reggio Emilia Approach to Early Years Education*. Ar gael o: https://education.gov.scot/nih/Documents/ELC/ELC35_ReggioEmilia/ELC35_ReggioAug06.pdf. (Darllenwyd: 19 o Ebrill 2023).

Early Years Matters. (2016) *Outdoor Learning Matters in the Early Years*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/outdoor-learning-in-the-early-years-matters/>. (Darllenwyd: 14 o Ebrill 2023).

Early Years Matters. (2021) *Observation, Assessment and planning*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/planning/#:~:text=Observation%20is%20referred%20to%20in,and%20the%20experiences%20on%20offer> (Darllenwyd: 20 o Ionawr 2023).

Early Years Matters. (dim dyddiad) *A unique child*. Ar gael o:

<https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/#:~:text=Every%20child%20is%20a%20unique,in%20their%20own%20individual%20ways>. (Darllenwyd: 13 o Ionawr 2023).

Edwards, C. Gandini, L. a Forman, G. (dim dyddiad) *The Hundered Languages of children*. Ar gael o: <https://uploads.theartofeducation.edu/2015/05/What-We-Can-Learn-From-Reggio.pdf>. (Darllenwyd: 21 o Ionawr 2023).

Evans, G. (2015) *The nine big issues facing Wales' new national curriculum*. Ar gael o: <https://www.walesonline.co.uk/news/education/nine-big-issues-facing-wales-10390465>. (Darllenwyd: 17 o Ebrill 2023).

Explorations Early Learning For Playvolution HQ. (2020) *Ellen Sandseter's 6 categories of Risky Play*. Ar gael o: <https://playvolutionhq.com/wp-content/uploads/2020/08/Ellen-Sandseters-6-Categories-Of-Risky-Play.pdf>. (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Family Lives. (2023) *Why play matters*. Ar gael o: <https://www.familylives.org.uk/advice/early-years-development/learning-and-play/why-play-matters#:~:text=Learning%20through%20play%20is%20important,their%20emotional%20and%20physical%20development>. (Darllenwyd: 10 o Ebrill 2023).

Garvis, S., Harj-Luukkainen, S. a Flynn, T. (2018) *A Descriptive Study of Early Childhood Education Steering Documents in Finland, Sweden and Australia around Language Immersion Programmes*. Ar gael o: <https://web-p-ebSCOhost.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=0&sid=9a382211-352c-4442-b190-4ad40ee116ed%40redis>. (Darllenwyd: 17 o Ionawr 2023).

Gov.uk. (dim dyddiad) *Understanding the world Diverse world*. Ar gael o: <https://help-for-early-years-providers.education.gov.uk/understanding-the-world/diverse-world#what-the-eyfs-framework-says>. (Darllenwyd: 16 o Ionawr 2023).

Harper, N. a Obee, P. (2021) *Articulating outdoor risky play in early childhood education: voices of forest and nature school practitioners*. Ar gael o: [https://www-tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/epdf/10.1080/14729679.2020.1784766?needAccess=true&role=button](https://www.tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/epdf/10.1080/14729679.2020.1784766?needAccess=true&role=button). (Darllenwyd: 13 o Ionawr 2023).

Hei Schools. (2020) *6 Reasons Why Finnish Early Childhood Education is Excellent*. Ar gael o: <https://www.heischools.com/blog/news/why-finnish-education-is-best#:~:text=Children%20are%20not%20tested,assessments%20to%20monitor%20children's%20development>. (Darllenwyd: 14 o Ionawr 2023).

Hornsea nursery school. (dim dyddiad) *Risky Play*. Ar gael o: <https://www.hornseanurseryschool.co.uk/risky-play/#:~:text=Risky%20play%20can%20be%20defined,Little%20%26%20Wyver%20C%202008>). (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Indirect. (dim dyddiad) *Playing outdoors*. Ar gael o: <https://www.nidirect.gov.uk/articles/playing-outdoors#:~:text=Playing%20outdoors%20allows%20children%20to,try%20new%20activities>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Kelly. (2016) *Why regular staff training and development is important*. Ar gael o: <https://www.earlyyears Careers.com/eyc/early-years-management/why-regular-staff-training-and-development-is-important-2/>. (Darllenwyd: 13 o Ebrill 2023).

Learn the signs act early. (dim dyddiad) *Watch Me! Celebrating Milestones and Sharing Concerns*. Ar gael o:

<https://www.cdc.gov/ncbddd/watchmetraining/docs/watch-me-training-print.pdf>.

(Darllenwyd: 16 o Ionawr 2023).

Lindon, J. (2012) *Cultural diversity in the early years*. Ar gael o:

<https://www.communityplaythings.co.uk/learning-library/articles/cultural-diversity-in-the-early-years#:~:text=Play%20materials%2C%20books%20and%20other,familiar%20music%20or%20art%20forms>. (Darllenwyd: 19 o Ionawr 2023).

Love Outdoor Learning. (2020) *What is Curriculum Based Outdoor Learning*. Ar gael o: <https://loveoutdoorlearning.com/outdoor-learning/what-is-curriculum-based-outdoor-learning/>. (Darllenwyd: 16 o Ebrill 2023).

Marchant, E. *et al.* (2019) 'Curriculum-based outdoor learning for children aged 9-11: A qualitative analysis of pupils' and teachers' views', *PLoS ONE*, 14(5), pp. 0212242.

Miller, L. a Soler, J. (2010) *The Struggle for Early Childhood Curricula: A comparison of the English Foundation Stage Curriculum, Te Whāriki and Reggio Emilia*. Ar gael o:

<https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/0966976032000066091#:~:text=Reggio%20Emilia%2C%20like%20Te%20Wh%C3%A4riki,a%20learner%2Dcentred%20curriculum%20framework>. (Darllenwyd: 21 o Ionawr 2023).

Ministry of Education. (2017) *Te Whariki Early childhood curriculum*. Ar gael o:

<https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf>. (Darllenwyd: 21 o Ionawr 2023).

Munson, S. (2022) *Curriculum for Wales: Early Years*. Ar gael o: <https://www.daynurseries.co.uk/advice/curriculum-for-wales-early-years#:~:text=Under%20the%20new%20Curriculum%20for,in%20play%20and%20learning%20resources>. (Darllenwyd: 16 o Ebrill 2023).

National Siolta Aistear Initiative. (dim dyddiad) *Supporting risky play opportunities (Birth-6 years)*. Ar gael o: <https://www.aistearsiolta.ie/en/play/resources-for-sharing/risky-play-birth-six-years-.pdf>. (Darllenwyd: 17 o Ionawr 2023).

Offorma, G. (2016) *Integrating components of culture in curriculum planning*. Ar gael o: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1207325.pdf>. (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Optimus Education. (dim dyddiad) *Alternative approaches to provision in the EYFS: Montessori practice*. Ar gael o: <https://my.optimus-education.com/alternative-approaches-provision-eyfs-montessori-practice#:~:text=In%20many%20ways%2C%20the%20Montessori,ways%20and%20at%20different%20rates>. (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Partentzone Scotland. (dim dyddiad) *What is assessment, and when and how does it take place?* Ar gael o: <https://education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/assessment-and-achievement/what-is-assessment-and-when-and-how-does-it-take-place/#:~:text=%E2%80%8BAssessment%20is%20carried%20out,and%20young%20people%20in%20learning>. (Darllenwyd: 18 o Ionawr 2023).

Print Play Learn. (2022) *WHAT IS THE SCANDINAVIAN EDUCATIONAL APPROACH?* Ar gael o: <https://printplaylearn.com/2022/04/what-is-the-scandinavian-educational-approach/#:~:text=Scandanvians%20approach%20education%20with%20a,will%20bring%20innovation%20into%20society>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Robertson, N., Morrissey, A. a Rouse, E. (2018) *Play-based learning can set your child up for success at school and beyond*. Ar gael o:

<https://theconversation.com/play-based-learning-can-set-your-child-up-for-success-at-school-and-beyond-91393#:~:text=What%20is%20play%2Dbased%20learning,in%20imaginative%20and%20playful%20ways>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Sandseter, E. (2013) *Early childhood education and care practitioners' perceptions of children's risky play; examining the influence of personality and gender*. Ar gael o:

<https://www.tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/epdf/10.1080/03004430.2013.794797?needAccess=true&role=button>. (Darllenwyd: 19 o Ionawr 2023).

Six Into Seven. (2023) *Every Child is Unique*. Ar gael o:

<https://sixintoseven.co.uk/every-child-is-unique/#:~:text=No%20two%20children%20are%20the,no%20interest%20in%20at%20all>. (Darllenwyd: 18 o Ebrill 2023).

Smidt, S. (2008) *Supporting Multilingual Learners in the Early Years*. London: Routledge.

Spielgaben. (2016) *Child most out of Montessori, Waldorf and Reggio Emilia?* Ar

gael o: <https://spielgaben.com/educational-philosophy-suit-child-montessori-waldorf-reggio-emilia/#:~:text=The%20Cons%20of%20Reggio%20Emilia,their%20letters%20of%20the%20alphabet>. (Darllenwyd: 21 o Ionawr 2023).

Staples, R. (2021) *What are the views of early years practitioners on the provisions of risky play and its relevance in supporting children's development and self-confidence?* Ar gael o: <https://www.ecsdn.org/wp-content/uploads/2021/12/Rebecca-Staples-Nottingham-Trent-University.pdf>. (Darllenwyd: 15 o Ionawr 2023).

Siraj, I. a Kingston, D. (2014) *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru*. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/archwiliad-annibynnol-or-cyfnod-sylfaen-yng-nghymru-adroddiad-terfynol.pdf> (Darllenwyd: 14 o Ionawr 2023).

Taguma, M., I., Litjens, a K, Makowiecki. (2013) *Quality Matters in Early Childhood Education and Care sweden*. Ar gael o: <https://www.oecd.org/education/school/SWEDEN%20policy%20profile%20-%20published%2005-02-2013.pdf>. (Darllenwyd: 16 o Ebrill 2023).

TKI. (2019) *Learning through play – What's it all about?* Ar gael o: <https://nzcurriculum.tki.org.nz/Curriculum-resources/NZC-Online-blog/Learning-through-play-What-s-it-all-about#:~:text=Learning%20through%20play%20is%20also,Wh%C4%81riki%2C%20the%20early%20childhood%20curriculum>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Unicef. (2018) *Learning through play*. Ar gael o: <https://www.unicef.org/sites/default/files/2018-12/UNICEF-Lego-Foundation-Learning-through-Play.pdf>. (Darllenwyd: 11 o Ebrill 2023).

Wake Forest Montessori. (2015) *How Montessorians Track Your Child's Progress*. Ar gael o: <https://www.wakeforestmontessori.com/how-montessorians-track-your-childs-progress/#:~:text=Tracking%20Your%20Child's%20Progress,lesson%20to%20a%20fellow%20student>. (Darllenwyd: 12 o Ionawr 2023).

Ward, M. (2020) *What is a play-based curriculum?* Ar gael o: <https://www.kids-konnect.com/blog/what-is-a-play-based-curriculum#:~:text=Play%2Dbased%20curriculum%20engages%20all,with%20others%20playing%20imaginary%20games>. (Darllenwyd: 15 o Ebrill 2023).

Weebly. (2015) *Observation and documentation*. Ar gael o: <https://reggioemilia2015.weebly.com/observation-and-documentation.html#:~:text=%22The%20Reggio%20Emilia%20approach%20focuses,aesthetics%20aspects%20of%20the%20display.%22>. (Darllenwyd: 20 o Ionawr 2023).

Wellies Day Nursery. (2021) *Principles of a Unique Child*. Ar gael o: <https://www.welliesdaynursery.co.uk/blog/principles-of-a-unique-child/>. (Darllenwyd: 13 o Ionawr 2023).

Welsh Government. (2015) *Early Years Outcomes Framework*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/early-years-outcomes-framework.pdf>. (Darllenwyd: 2 o Chwefror 2023).

Welsh Government. (2020) *Curriculum for Wales*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/curriculum-wales-overview>. (Darllenwyd: 23 o Ionawr 2023).

Welsh Government. (2021) *Introduction to Curriculum for Wales guidance*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/introduction/>. (Darllenwyd: 12 o Ebrill 2023).

Welsh Government. (2023) *Curriculum for Wales: overview*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/curriculum-wales->

[overview#:~:text=The%20purpose%20of%20every%20school,of%20Wales%20and%20the%20world](#). (Darllenwyd: 18 o Ebrill 2023).

West Sussex County Council. (2021) *Effective Practice: Observation, Assessment and Planning*. Ar gael o:

https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf.

(Darllenwyd: 14 o Ionawr 2023).

WISERD. (2016) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Technegol*. Ar gael o:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/160620-foundation-phase-technical-report-cy.pdf> (Darllenwyd: 14 o Ionawr 2023).

Wise, R. (2021) *This Is What the Reggio Emilia Approach to Early Childhood Education Is Like*. Ar gael o:

<https://educationandbehavior.com/this-is-what-the-reggio-emilia-approach-to-early-childhood-education-is-like/#:~:text=Their%20teachers%20are%20able%20to,about%20themselves%20and%20their%20teaching>. (Darllenwyd: 18 o Ionawr 2023).

WJE. (2015) *Future Education Systems in Wales: FP*. Ar gael o:

<https://core.ac.uk/download/pdf/96773747.pdf> (Darllenwyd: 14 o Ebrill 2023).

Veazey, R. (2023) *Te Whāriki*:

What is New Zealand's Early Years Curriculum? Ar gael o:

<https://www.famly.co/blog/te-whariki-new-zealand-early-years-curriculum#:~:text=Te%20Wh%C4%81riki%20puts%20complete%20focus,that%20we%20have%20in%20England>. (Darllenwyd: 23 o Ionawr 2023).

